



Ein cyf/Our ref VG/02682/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

5 Mawrth 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr 9 Chwefror ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch ariannu costau angladd holl staff y GIG a fu farw o Covid-19.

Yn fy llythyr atoch dyddiedig 3 Tachwedd 2020 nodais sut yr oeddwn yn ystyried ariannu costau angladd staff y GIG a fu farw o Covid-19. O fewn hyn, amlinellais sut yr ymchwiliwyd i hyn. Yn bennaf ystyriodd fy swyddogion a oedd unrhyw gynlluniau yn bodoli a allai gael eu haddasu at y diben hwn megis y Cynllun Claddu Plant. Ystyriwyd sefydlu cynllun newydd ond y farn oedd nad oedd yr opsiynau hyn yn ymarferol. Yn y bôn, y tri phrif reswm dros hyn yw:

- Byddai nodi'r rhai sy'n weithwyr y GIG yn anodd i'r awdurdodau lleol wrth weinyddu cynllun o'r fath. Yn wahanol i'r cynllun claddu plant, lle mae eu dyddiad geni a'r dyddiad y buont farw ar gael yn hwylus, ni fyddai proffesiwn y person yn cael ei ddangos ar eu tystysgrif marwolaeth. Felly, bydd anawsterau wrth weinyddu'r cynllun, sicrhau cadarnhad o gymhwysedd ac fe fyddai'n creu baich ychwanegol ar gyflogwyr y GIG a'r awdurdodau lleol mewn cyfnod anodd;
- Byddai angen rhoi ystyriaeth i gymhwyster gweithwyr allweddol rheng flaen eraill. Byddai'n annheg darparu hyn i un grŵp o weithwyr rheng flaen yn unig; a
- Byddai'r amserlen ar gyfer sefydlu'r cynllun yn cymryd llawer o wythnosau/misoedd a byddai angen ystyried sut y gellid ad-dalu'r costau claddu sydd eisoes wedi'u talu gan deuluoedd Byddai ad-dalu ôl-weithredol hefyd yn creu gofynion gweinyddol ychwanegol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn sylweddoli y bydd y penderfyniad yn eich siomi ond rwyf yn gobeithio y byddwch yn cydnabod ein bod wedi ymchwilio i'r cynllun a'r goblygiadau cysylltiedig cyn gwneud y penderfyniad hwn.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services